# SL(5)741 - Rheoliadau Traffordd yr M4 (Cyffordd 28 (Parc Tredegar) i Gyffordd 24 (Coldra)) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod terfyn cyflymder uchaf o 50 milltir yr awr (yn lle'r terfyn cyflymder cenedlaethol) ar y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man i’r Gorllewin o Gyffordd 23A (Magwyr) i fan i’r Dwyrain o Gyffordd 29 (Cas-bach)) (Terfynau Cyflymder Amrywiadwy) 2015

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi eu gosod yn Saesneg yn unig.

Mae Rheol Sefydlog 15.4 yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau gael eu gosod yn ddwyieithog lle y bo'n rhesymol ymarferol.

Codwyd y pwynt hwn yn ddiweddar mewn perthynas ag offerynnau statudol eraill. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy esbonio, er bod cyfran gynyddol o'r dogfennau hyn yn

cael eu gosod yn ddwyieithog, ei bod yn gorfod blaenoriaethu adnodd cyfieithu cyfyngedig yn llym iawn ar hyn o bryd. Deddfwriaeth a chanllawiau i'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â Covid a Brexit yw'r prif flaenoriaethau.

Esboniwyd hefyd ei bod wedi ystyried safon berthnasol y Gymraeg a'i bod wedi ystyried canllawiau a ddarperir gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**10 Chwefror 2021**